
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 674A2011



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol sy’n gyfrifol am archwilio’r rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy’n cael ei wario yng Nghymru bob blwyddyn gan gynnwys £15 biliwn a drosglwyddir i Gymru bob blwyddyn trwy bleidlais gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo bron i £5.5 biliwn o’r arian hwn i lywodraeth leol, trwy gyfrwng grantiau cyffredinol a phenodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall trwy’r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gofalu bod arian cyhoeddus yn cyfrif, trwy hyrwyddo gwelliannau, fel bod pobl Cymru yn elwa ar wasanaethau cyhoeddus atebol, wedi’u rheoli’n dda, sy’n cynnig y gwerth am arian gorau posibl. Mae hefyd yn ymrwymo i nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da ledled sector cyhoeddus Cymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth gan Alan Morris a John Roberts i gynnal yr Asesiad Gwella a pharatoi’r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno** **4**

**Cynigion ar gyfer Gwella** **5**

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Ar y cyfan, mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn sawl maes allweddol ac mae'n parhau i ddatblygu ei ddull o fesur ac adrodd am ei berfformiad 8

Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ei drefniadau i sicrhau gwelliannau mewn meysydd allweddol 9

Mae'r Awdurdod yn gwella'r modd y mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc ac mae tuedd gyffredinol o welliant yn y modd mae'n gofalu am y Parc 11

Mae tuedd gyffredinol o welliant yn y modd mae'r Awdurdod yn gofalu am y Parc, er gwaethaf trafferthion mewn ambell agwedd 11

Mae'r Awdurdod yn cyflwyno gwelliannau mesuradwy i'r modd y mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc, er y gall fod dewisiadau eraill ar gael ar gyfer gwneud defnydd mwy effeithiol o Oriel y Parc 14

Mae dull yr Awdurdod o werthuso ac adrodd am ei berfformiad a'i drefniadau ar gyfer cyflwyno gwelliannau yn parhau i ddatblygu, er bod yna berygl o beidio gwerthfawrogi gwerth gwneud cymariaethau 17

## Atodiadau

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 20

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Awdurdod 21

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 22

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 24

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair prif adran, sy'n cwmpasu gwaith cynllunio, darparu a gwerthuso gwelliannau'r Awdurdod.

2 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn sawl maes allweddol ac mae'n parhau i ddatblygu ei ddull o fesur ac adrodd am ei berfformiad.

3 Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ei drefniadau i sicrhau gwelliannau mewn meysydd allweddol. Er enghraifft, mae wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng ei amcanion gwella a'i drefniadau rheoli perfformiad, wedi diweddaru ei strategaethau adnoddau dynol a thechnoleg gwybodaeth, ac wedi nodi'r mesurau llwyddiant newydd y gall eu defnyddio i asesu ei berfformiad a lleihau costau.

4 Mae'r Awdurdod hefyd yn gwella'r modd y mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc ac mae tuedd gyffredinol o welliant yn y modd mae'n gofalu am y Parc. Daethom i'r casgliad hwn ar sail y canlynol:

- Mae tuedd gyffredinol o welliant yn y modd mae'r Awdurdod yn gofalu am y Parc, er gwaethaf trafferthion mewn ambell agwedd.

  Wrth ystyried agweddau ar ofalu am y Parc fel bioamrywiaeth, adeiladau hanesyddol mewn perygl ac allyriadau carbon, gwelsom enghreifftiau o wella ym mhob maes yn ogystal ag enghreifftiau o ddirywiad neu golli targedau yn y byr dymor. Gwnaeth gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod gynnydd sylweddol mewn rhai meysydd, ond cafwyd dirywiad mewn meysydd eraill, er bod perfformiad ar y cyfan yn well nag yn y blynyddoedd diwethaf.

- Mae'r Awdurdod yn cyflawni gwelliannau mesuradwy i'r modd y mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc, er y gall fod dewisiadau eraill ar gael ar gyfer gwneud defnydd mwy effeithiol o Oriel y Parc.

  Yn 2010-11, ehangodd yr Awdurdod ei rwydwaith o lwybrau, agorodd lwybrau eraill at ddefnydd ehangach, a denodd ragor o gerddwyr. Defnyddiodd mwy o ysgolion a rhagor o ddisgyblion ei wasanaeth addysg. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth addysg a'r canolfannau ymwelwyr. Efallai nad oes defnydd llawn yn cael ei wneud o ganolfan ymwelwyr Oriel y Parc er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Awdurdod.


5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn ymateb i asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad a'i drefniadau ei hun. Daethom i'r casgliad bod dull yr Awdurdod o werthuso ac adrodd am ei berfformiad, a'i drefniadau ar gyfer cyflwyno gwelliannau, yn parhau i ddatblygu, er bod yna berygl o beidio â gwerthfawrogi gwerth gwneud cymariaethau.

# Cynigion ar gyfer Gwella

6 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion statudol yn yr adroddiad hwn. Er hynny, cyflwynir cynigion ar gyfer gwella isod.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Cryfhau'r asesiad o lwyddiant trwy gynnwys data o ffynonellau eraill, er enghraifft adroddiad Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro. |
| C2 | Cadarnhau bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Awdurdod ac Amgueddfa Cymru yn cynrychioli gwerth da am arian o ran ei gyfraniad at flaenoriaethau'r Awdurdod. |
| C3 | Yn y dyfodol, sicrhau bod cynllun gwella'r Awdurdod yn cynnwys cymariaethau perthnasol â pherfformiad awdurdodau eraill. |
| C4 | Cryfhau'r broses asesu risg er mwyn ystyried peryglon yr effaith ar gyflawni blaenoriaethau. |

# Adroddiad Manwl



# Cyflwyniad

7 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ceir disgrifiad cryno o ddyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 2.

8 Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad blynyddol am ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn cyflwyno mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn cyflwyno darlun o beth mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut mae'n mynd ati i wneud hyn, ac yn manteisio ar waith arolygiaethau eraill lle bo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd a wnaeth yr Awdurdod ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ystyried hunanasesiad yr Awdurdod.

9 Gydol yr adroddiad hwn, rydym yn nodi beth mae angen i'r Awdurdod ei wneud er mwyn gwella ei wasanaethau. O gofio'r amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol iawn pe na baem yn canfod rhywbeth y gellir ei wella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru y dylent ymyrryd mewn rhyw fodd;
- cynnal archwiliad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – ac os gwneir argymhelliad ffurfiol, rhaid i'r Awdurdod ymateb iddo'n gyhoeddus cyn pen 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn cyflwyno cynigion i'r Awdurdod, disgwyliwn iddynt weithredu arnynt cyn dilyn hynny wedyn.

10 A yw'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i chi, ac yn hawdd i'w ddeall? Mae croeso i chi anfon sylwadau trwy e-bostio info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Ar y cyfan, mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn sawl maes allweddol ac mae'n parhau i ddatblygu ei ddull o fesur ac adrodd am ei berfformiad

11 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r awdurdod. Mae casgliadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y wybodaeth i ni ei chrynhoi a'i rhannu, a chanfyddiadau'r gwaith a flaenoriaethwyd gennym i'w gyflawni eleni. Trwy wneud hyn, rydym hefyd wedi ystyried unrhyw amcanion gwella yr oedd yr Awdurdod wedi gobeithio'u cyflawni yn 2010-11. Lle bo'n berthnasol, rydym yn cyfeirio at yr amcanion gwella hyn yn yr adrannau canlynol. Yn anochel, mae unrhyw asesiad yn dibynnu ar ansawdd y wybodaeth a ddarperir a pha mor berthnasol ydyw.

## Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ei drefniadau i sicrhau gwelliannau mewn meysydd allweddol

12 Ym mis Gorffennaf 2011, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol* i Brif Weithredwr yr Awdurdod. Daeth y llythyr i'r casgliad bod yr Awdurdod yn bwrw iddi gyda'r agenda wella, gyda newidiadau i'r strwythur pwyllgorau, setliad ariannol gwell na'r disgwyl a gwelliannau i'r trefniadau rheoli perfformiad. Roedd y newidiadau hyn yn cyfrannu at obeithion gwell o gyflawni blaenoriaethau'r Awdurdod. Roedd y llythyr hefyd yn nodi bod amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2011-12 a'i gynllun gwella (*Strategaeth Gorfforaethol 2011-2014*) yn bodloni gofynion y Mesur, ond bod bylchau rhwng ei amcanion gwella a'r mesurau llwyddiant, y camau gweithredu a'r dangosyddion perfformio perthnasol a nodwyd yn ei gynllun gwella. Roedd y materion hyn, ynghyd â'r ffaith bod angen i'r Awdurdod gasglu rhywfaint o ddata llinell sylfaen, yn tanseilio gallu'r Awdurdod i fonitro cynnydd.

13 Cafodd y broses o lunio fersiwn drafft a therfynol o Amcanion Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2011-12 ei seilio ar ymgynghoriad cyhoeddus, a oedd yn cynnwys cyfres o weithdai a chyfarfodydd gydag aelodau a 130 o staff. Bwriad y broses hon oedd gwneud i'r holl staff a'r aelodau deimlo eu bod yn rhan o'r blaenoriaethau hyn.

14 Mae'r Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion ar gyfer gwella sydd yn y Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol ac yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* 2010. Yn fwy na dim, mae'r Awdurdod wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng ei amcanion gwella a'r trefniadau rheoli perfformiad a oedd eisoes mewn grym i sicrhau ei fod yn cyflawni ei flaenoriaethau strategol.

15 Mae'r meysydd cynnydd eraill yn cynnwys:

- diweddaru'r strategaethau adnoddau dynol a thechnoleg gwybodaeth;
- cwblhau ymarfer mapio o'r holl strategaethau a pholisïau cyfredol er mwyn nodi unrhyw ofynion pellach o ran diweddaru neu fynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau;
- nodi a chynnwys mesurau llwyddiant ychwanegol yn fframwaith rheoli perfformiad yr Awdurdod a all helpu i asesu'r cynnydd tuag at gyflawni amcanion;
- parhau i ostwng nifer y dyddiau a gollir yn sgil absenoldeb salwch; a
- bod yr awdurdod cynllunio cyntaf yng Nghymru i gyflwyno system gyfrifiadurol SWIFT i gefnogi gwaith y gwasanaeth gorfodi cynllunio.

16 Mae arbedion costau'r Awdurdod yn sicrhau ei fod yn gallu ymateb yn well i'r her mae'n ei wynebu yn sgil llai o arian cyhoeddus. Yn 2010-11, gwelwyd gostyngiad o £64,000 yng nghostau cyflog. Llwyddwyd i wneud hyn yn bennaf trwy ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau gwirfoddol, ac wrth i'r Awdurdod fanteisio ar y cyfle i ad-drefnu'r adran gynllunio. Llwyddwyd i sicrhau gostyngiad o £36,000 mewn costau teithio yn 2010-11 hefyd. Cyflwynwyd newidiadau i'r cynigion gwreiddiol ar ôl ymgynghori â'r staff ar newid amodau a thelerau. Mae'r arfer o ymgysylltu â'r staff ynglŷn â sut i leihau costau wedi golygu eu bod wedi ymateb yn gadarnhaol i'r newidiadau hyd yma, er bod ganddynt rai pryderon cychwynnol. Er mai dim ond nawr mae'r newidiadau'n dechrau dwyn ffrwyth, a bod rhagor o ailstrwythuro staff ar y gweill, dylai'r Awdurdod fod mewn sefyllfa well i

gyflwyno gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon cyn hir.

17 Mae amcan yr Awdurdod yn 2010-11 o brofi ei fod yn gweithio i safonau llywodraethu uchel yn hynod berthnasol o gofio'i drefniadau ar gyfer gwella. Yn ei *Lythyr Archwilio Blynyddol*, a gyhoeddwyd ar 29 Tachwedd 2011, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol y sylw canlynol ar ddatganiad llywodraethu blynyddol yr Awdurdod:

'Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ofyniad newydd ar gyfer 2010-11. Er i'r Datganiad gael ei gwblhau yn unol â'r canllawiau perthnasol, mae lle i wella arno yn y dyfodol. Yn arbennig, wrth adrodd am adolygiad yr Awdurdod o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu fel rhan o'i fusnes arferol a sut y mae'n cofnodi ei adolygiad o effeithiolrwydd ar ddiwedd blwyddyn, gan gynnwys barn ffurfiol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.'

18 Yn y *Llythyr Archwilio Blynyddol*, a welir yn llawn yn Atodiad 3, mae'r Archwilydd Penodedig yn dweud ei fod wedi cyflwyno barn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu sy'n cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun teg a chywir o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod. Hefyd, fe nododd fod yr Awdurdod wedi adolygu ei strwythur pwyllgorau yn ystod y flwyddyn ac wedi sefydlu Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys gwaith archwilio allanol, y Datganiad Cyfrifon blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd y tîm ymgysylltu archwiliad ariannol yn gweithio gyda swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor er mwyn eu helpu i ymgymryd â'r cyfrifoldebau newydd.

19 Mae'r Awdurdod wedi llunio cynllun gweithredu'r aelodau ac yn gweithredu rhaglen ddatblygu'r aelodau, sy'n cynnwys hyfforddiant cynefino ac arfarnu'r aelodau. Dyfarnwyd Siarter Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru iddo. Mae'r Siarter yn darparu fframwaith eang ar gyfer datblygu, hunanasesu, gweithredu ac adolygu'r aelodau. Er bod nifer cyfartalog yr aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd wedi cynyddu o 78 y cant yn 2009-10 i 81 y cant yn 2010-11, nid yw rhai o'r aelodau wedi manteisio ar y cyfle i gyfrannu'n llawn yn rhaglen ddatblygu'r Awdurdod. Bydd angen i'r Awdurdod sicrhau bod yr holl aelodau'n rhan o'i raglen ddatblygu er mwyn ennill Siarter Uwch Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[1].

20 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canmol yr Awdurdod am ddatblygu gwefan gorfforaethol newydd, cwbl ddwyieithog. Hefyd, canmolwyd yr Awdurdod am fynd ati i ddechrau prif ffrydio'r Gymraeg yn ei bolisïau a strategaethau, ac am gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith i arweinwyr tîm. Mae'r Awdurdod yn cadw gwybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff, ac er ei fod yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg sylfaenol yn ei brif ganolfan gyswllt, nid yw'n gallu gwneud hynny yn y canolfannau croeso. Dywedodd y Bwrdd nad yw adroddiad monitro blynyddol yr Awdurdod ar weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cynnwys digon o wybodaeth am nifer o agweddau gweithredu'r Cynllun, ac nad yw wedi mynd i'r afael â gofynion monitro'r Bwrdd.

1 Mae'r siarter uwch yn cael ei ddatblygu er mwyn ystyried y newidiadau o ran datblygu a chymorth i aelodau yn sgil Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

# Mae'r Awdurdod yn gwella'r modd y mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc ac mae tuedd gyffredinol o welliant yn y modd mae'n gofalu am y Parc

21 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi pa mor dda mae'r Awdurdod yn cyflwyno gwelliannau mewn meysydd blaenoriaeth a nododd yn ei amcanion gwella yn 2010-11. Yn anochel, mae unrhyw asesiad yn dibynnu ar ansawdd y wybodaeth a ddarperir a pha mor berthnasol ydyw.

## Mae tuedd gyffredinol o welliant yn y modd mae'r Awdurdod yn gofalu am y Parc, er gwaethaf trafferthion mewn ambell agwedd

22 Mae'r amcanion gwella ar gyfer 2010-11 sy'n berthnasol i wella'r modd y mae'r Awdurdod yn gofalu am y Parc yn cynnwys:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y Parc;
- Cyfrannu at ymdrechion i oresgyn newid yn yr hinsawdd a lleihau ôl troed ecolegol Cymru; a
- Darparu gwasanaeth cynllunio sy'n bodloni ymgeiswyr a rhanddeiliaid ac sy'n diogelu'r Parc Cenedlaethol.

23 Yn 2010-11, roedd yr Awdurdod yn helpu i reoli 2000 hectar o ardal y Parc at ddibenion cadwraeth, sef yr un ffigwr â 2009-10. Yn sgil pryderon yn y 1970au am effaith y grantiau a oedd ar gael i wella tiroedd amaethyddol, rhoddwyd grym i'r Parciau Cenedlaethol lunio cytundebau gyda ffermwyr a oedd yn talu iawndal ar sail 'ildio elw' am beidio â gwella'r tir. Mae gan yr Awdurdod nifer o gytundebau lleol â ffermwyr er mwyn eu hannog i ffermio mewn modd sensitif i'r amgylchedd. Yn ystod 2010-11, sefydlodd yr Awdurdod gytundeb rheoli newydd. Ni chafodd dau gytundeb rheoli eu hadnewyddu, er bod un wedi'i drosglwyddo i gynllun Glastir[2]. Dros y blynyddoedd diwethaf, derbyniodd 30 o safleoedd coetir yn ardal y Parc grantiau. Cyflwynwyd saith cais newydd am grant i'r Awdurdod yn 2010-11, ac roedd pob un ohonynt yn llwyddiannus.

24 Parhaodd nifer yr adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl, a fynegir fel canran o'r holl adeiladau rhestredig, ar 6.9 y cant, sy'n uwch na tharged yr Awdurdod o 6 y cant, ond roedd yn welliant ar y 7.7 y cant a adroddwyd gan yr Awdurdod yn 2008-09. Mae ffigurau'r Awdurdod i Cadw[3] yn awgrymu bod cyflwr 36 y cant o'r henebion cofrestredig yn gwaethygu. Gan fod hwn yn fesur newydd ar gyfer 2010 11, nid oedd modd asesu a yw'r sefyllfa'n gwella. Er mai dim ond naw grant adeiladau hanesyddol a gyflwynwyd yn 2010-11, o gymharu ag 11 yn 2009 10 a tharged o 10 grant, defnyddiwyd yr holl arian oedd ar gael.

25 Mae'r Awdurdod yn cynnal arolwg o dair rhywogaeth o adar allweddol bob blwyddyn - yr ehedydd, y frân goesgoch a hwyaden yr eithin. Er bod sawl ffactor y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod yn effeithio ar fywyd gwyllt y Parc, yn enwedig y tywydd, mae'n fwy addas i edrych ar dueddiadau yn hytrach nac amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn:

- cyfrir nytheidiau o hwyaid yr eithin pan fo'r cywion yn mynd i'r dŵr, ac mae'r ffigurau'n dangos bod y niferoedd wedi cynyddu'n raddol rhwng 2007 a 2010 cyn gostwng yn 2010-11;
- cynyddodd tiriogaethau'r brain coesgoch yn raddol rhwng 2007 a 2010 a gwelwyd cynnydd sylweddol yn ystod 2010-11; a

2 Cynllun rheoli tir cynaliadwy Llywodraeth Cymru.
3 Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

- cynyddodd nifer yr ehedyddion, yn seiliedig ar nifer y nythod a welwyd, yn raddol rhwng 2007 a 2010 ond bu gostyngiad bach yn 2010-11.

26 Gellir cysylltu rhai o'r newidiadau hyn â chamau gweithredu'r Awdurdod. Er enghraifft, mae'n debyg mai gwaith cynyddol yr Awdurdod yn rheoli'r llethrau arfordirol a, thrwy hynny, greu cyflenwad bwyd gwell, arweiniodd at gynyddu niferoedd tiriogaethau'r brain coesgoch o 48 i 70 yn 2010-11. Er na allai gwaith asesu nifer y rhywogaethau a bioamrywiaeth fyth fod yn wyddonol gywir, mae methodoleg gyson o amcangyfrif niferoedd – fel yr un a ddefnyddir gan yr Awdurdod – o leiaf yn helpu i nodi ac ymateb i dueddiadau hirdymor.

27 Dylid ystyried y ffigurau uchod yng nghyd-destun y dirywiad cyffredinol ym mhoblogaethau adar ledled y DU.
Er enghraifft, mae tuedd gyfartalog poblogaeth yr ehedydd wedi gostwng 15 y cant rhwng 1995 a 2009[4].

28 Mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda phartneriaid i gyhoeddi adroddiad *Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro*[5], astudiaeth o gyflwr fflora a ffawna'r sir ar hyn o bryd. Nid yw'r adroddiad yn gwahaniaethu rhwng bywyd gwyllt y tu mewn a thu allan i'r Parc ei hun ac mae'n cynnwys map asesu bioamrywiaeth manwl. Er na ddefnyddiodd yr Awdurdod y wybodaeth i asesu'r cynnydd presennol, mae'n cydnabod bod gan yr adroddiad y potensial i fod yn ddull defnyddiol o asesu gwerthoedd bioamrywiaeth y Parc ac y gallai, felly, gynnig llinell sylfaen werthfawr er mwyn medru asesu cynnydd yn y dyfodol.

29 Mae'r Awdurdod wedi gosod targed o ddefnyddio 10 y cant yn llai o drydan yn 2010-11, ond dim ond gostyngiad o 2.8 y cant a gafwyd. Cafodd yr Awdurdod broblemau gyda'r offer rheoli yn Oriel y Parc, sy'n cynnwys llawer o baneli solar ffotofoltaig a phympiau gwres o'r ddaear, ac sydd fel arfer yn defnyddio tua 40 y cant o'r holl drydan a ddefnyddir gan yr Awdurdod. O hepgor ffigurau Oriel y Parc, byddai'r Awdurdod wedi defnyddio 5.1 y cant yn llai o drydan.

30 Roedd dulliau'r Awdurdod o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys parhau i hyrwyddo trefniadau gweithio gartref fel rhan o waith hyblyg; defnyddio mwy o fideo-gynadledda; a defnyddio trafnidiaeth yn fwy effeithlon. Cafwyd 10 y cant yn llai o deithiau o'r gwaith i'r cartref fesul gweithiwr cyflogedig ar gyfartaledd, a chafwyd gostyngiad o dros 31,000 o filltiroedd yn y teithiau busnes â char. Rhagwelir y bydd y lefelau allyriadau $CO_2$ yn gostwng ymhellach gan fod yr Awdurdod yn bwriadu prynu cerbydau mwy effeithlon yn ystod 2011-12.

31 Yn gyffredinol, mae'r Awdurdod yn amcangyfrif ei fod wedi sicrhau gostyngiad o 2.32 y cant mewn allyriadau $CO_2$. Os yw'n cynnwys arbedion mewn dulliau teithio i'r gwaith, yna mae'r Awdurdod yn amcangyfrif bod y ffigwr wedi gostwng dros 6 y cant.

32 Mae gwneud y penderfyniadau cywir ar geisiadau cynllunio, a chael cefnogaeth arolygydd cynllunio a benodwyd gan y llywodraeth os yw'r ymgeisydd yn penderfynu apelio, yn helpu i ddiogelu'r Parc rhag datblygiadau diangen. Roedd yr Awdurdod yn dueddol o ennill mwy na dwy ran o dair o apeliadau cynllunio yn y gorffennol, er bod ei

4 *The State of the UK's Birds 2011*, a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.
5 Published in March 2011 by the Pembrokeshire Biodiversity Partnership.

lwyddiannau wedi gostwng yn is na'r hanner yn 2009-10. Mae'r patrwm hwn wedi'i wyrdroi bellach, gyda 65 y cant o'r apeliadau a gafodd eu cadarnhau yn cynnal penderfyniad yr Awdurdod.

33 Yn 2009-10, fe wnaeth yr Awdurdod welliannau sylweddol o ran pa mor gyflym y mae'n gwneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio. O fod yn waeth na'r cyfartaledd ymhlith holl awdurdodau cynllunio lleol[6] yng Nghymru, mae bellach yn gweithredu'n gyflymach na'r cyfartaledd a'r gorau o blith tri pharc cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, yn 2010-11, cynyddodd yr amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i benderfynu ar geisiadau cynllunio o 55 i 60 diwrnod. Stori debyg oedd hi o ran nifer y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt cyn pen 8 wythnos, gyda'r gwelliant o 56 y cant yn 2008-09 i 72 y cant yn 2009-10 cyn gostwng yn ôl i 66 y cant yn 2010-11, er ei fod yn well na'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd ymddeoliad un o uwch-gynllunwyr yr Awdurdod yn golygu bod swydd allweddol yn wag am bron i chwe mis, a gallai hyn fod wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn perfformiad.

34 Ar nodyn mwy cadarnhaol, roedd nifer y penderfyniadau oedd yn aros i gael eu gwneud ar geisiadau cynllunio wedi lleihau i'r fath raddau nes bod ystadegau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mawrth 2011 yn awgrymu mai'r Awdurdod sydd â'r nifer isaf o benderfyniadau cynllunio sy'n aros i'w prosesu (yn nhermau canran) ledled Cymru o bell ffordd. Dyma'r Awdurdod cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol, ac mae wedi cyflwyno nifer o bolisïau cynllunio newydd a chanllawiau cynllunio atodol i gyd-fynd â'r Cynllun.

35 Er bod prosesu penderfyniadau'n gyflym yn fater sy'n dylanwadu ar foddhad y cyhoedd o bosibl, efallai nad dyma'r ffactor pwysicaf oll. Nid yw'r Awdurdod wedi cymryd camau eto i nodi'r elfennau hynny a fyddai'n bodloni ymgeiswyr a rhanddeiliaid. Felly, mae'n gorfod dibynnu ar wybodaeth sydd naill ai'n ofynnol i'w chasglu yn ôl deddfwriaeth neu sydd wedi arfer cael ei chasglu, yn hytrach na chasglu gwybodaeth a defnyddio dangosyddion wedi'u creu'n lleol i helpu i ddangos y cynnydd tuag at gyflawni'r amcan hwn. Ni ddylai hyn rwystro'r Awdurdod rhag cymharu ei berfformiad gyda sefydliadau eraill, tebyg, os yw'r sefydliadau hynny'n defnyddio'r un mesurau.

36 Mae'r gwelliannau a wnaed i'r Parc yn ystod 2010-11 gan yr Awdurdod neu y bu'r Awdurdod yn allweddol i'w cyflawni yn cynnwys:

- cwblhau cynllun rheoli a dechrau gweithredu rhaglen waith i wella bioamrywiaeth rhywogaethau yn South Hook;
- gwrthod 12 cais cynllunio ar y sail y byddai'r datblygiadau'n cael effaith andwyol ar y dirwedd;
- gwella'r golygfeydd drwy dynnu 28 o bolion a oedd yn dal gwifrau pŵer a gosod 1.3 cilometr o geblau dan ddaear ym Mhen-caer;
- lansio prosiect coridor arfordirol gwyrdd gyda'r nod o ehangu bioamrywiaeth ar hyd yr arfordir ac ar ben y clogwyni; a
- mapio nythfeydd y cudyll coch, gan fonitro patrymau nythu a bwydo.

6 Mae awdurdodau lleol (cynghorau) yn awdurodau cynllunio hefyd.

## Mae'r Awdurdod yn cyflwyno gwelliannau mesuradwy i'r modd y mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc, er y gall fod dewisiadau eraill ar gael ar gyfer gwneud defnydd mwy effeithiol o Oriel y Parc

37 Mae amcanion gwella 2010-11 sy'n berthnasol i wella'r modd y mae'r Awdurdod yn helpu pobl i fwynhau a deall y Parc yn cynnwys:

- darparu cyfleoedd hamddena cynaliadwy a phleserus; a
- hyrwyddo dealltwriaeth well o nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol

38 Gwelwyd cynnydd bychan yn nifer y llwybrau cerdded a hawliau tramwy eraill a oedd yn hawdd i aelodau'r cyhoedd eu defnyddio yn 2010-11, o 86 i 87.4 y cant. Cynyddodd nifer y cerddwyr[7] (o 6 y cant) eto, er ei fod yn llai na ffigwr 2009-10 (9 y cant). Dros y blynyddoedd, mae'r Awdurdod wedi datblygu dros 70 o lwybrau sy'n ymestyn dros 50 cilomedr ac sy'n cynnig amryw o gyfleoedd cerdded gwahanol. Mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn graddio'r llwybrau hyn fel bod pobl yn gallu crwydro'r Parc mewn modd sy'n addas i'w hamgylchiadau unigol nhw. Maent yn cynnwys teithiau cylchol, llwybrau hamddenol a llwybrau hawdd eu cerdded ac i ddefnyddwyr cadair olwyn. Maent wedi'u nodi ar fapiau ac arwyddion, ac mae cyfleusterau chwilio ar gael ar wefan yr Awdurdod fel y gall pobl ganfod llwybrau priodol ymlaen llaw. Ymhlith y grwpiau sy'n dal i ddefnyddio'r Parc, mae pobl â nam ar eu golwg, pobl â phroblemau iechyd meddwl a grwpiau dan anfantais gymdeithasol.

39 Yn ogystal â rhywfaint o gyfleoedd 'oddi-ar-y-ffordd', mae llwybrau ceffylau wedi'u nodi gan ddefnyddio'r system safonol a ddefnyddir ledled Cymru a Lloegr, ac mae modd i farchogion a beicwyr eu defnyddio. Agorodd 9 cilomedr o lwybrau amlddefnydd ychwanegol yn ystod 2010-11. Prin eu bod yn addas i gerddwyr eu defnyddio yn y gorffennol, ond bellach maent yn agored i feicwyr a marchogion. Roedd y cyfleuster ychwanegol hwn, gan gynnwys darparu maes parcio cyfagos sy'n addas i drelars ceffylau, yn un o'r rhesymau allweddol pam y derbyniodd yr Awdurdod wobr gan y Gymdeithas Geffylau am wneud y Parc yn fwy hygyrch i farchogion ceffylau.

40 Gwelwyd mwy o ddefnydd yng ngwasanaeth addysg yr Awdurdod yn ystod 2010-11. Defnyddiodd 106 o ysgolion, rhai o'r tu allan i Sir Benfro, y gwasanaeth hwn, 14 am y tro cyntaf, o gymharu â 81 o ysgolion yn 2009-10. Cynyddodd nifer y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth hefyd, o 8,737 i 9,013 yn 2010-11. Hefyd, ymwelodd ychydig dros 8,000 o blant ysgol â Chastell Caeriw a Chastell Henllys yn 2010-11, ffigwr tebyg i 2009-10. Yn seiliedig ar ddull mesur newydd a gyflwynwyd gan dri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru, cafodd digwyddiadau ac ymweliadau'r gwasanaeth addysg sgôr ysbrydoli o 10 neu uwch[8] gan 75 y cant o'r grwpiau ysgolion.

41 Yn ystod 2010-11, dechreuodd yr Awdurdod godi tâl am ei wasanaeth addysg, ar ôl adolygu'r defnydd ohono. Roedd yr Awdurdod yn poeni bod rhai ysgolion yn gorddefnyddio'r gwasanaeth am ei fod am ddim, ac yn ei ddefnyddio at ddibenion eraill heblaw rhai

7 Wedi'u mesur gan rifyddion pwyntiau sefydlog ar lwybr yr arfordir.
8 Mae sgorau ysbrydoli yn amrywio o 1 i 11 – 11 yw'r sgôr ysbrydoli uchaf

addysgol yn unig. Roedd yr Awdurdod hefyd eisiau ystyried ffyrdd eraill o godi arian. Cynhaliodd drafodaethau gydag ysgolion lleol cyn penderfynu cyflwyno'r newidiadau hyn, ac o'r herwydd, ni chafodd y ffioedd newydd effaith ar nifer y defnyddwyr. Defnyddiodd yr Awdurdod yr elw a gafodd o'i wasanaeth addysg i ddefnyddio parcmyn darganfod achlysurol rhan-amser cyflogedig yn hytrach na gorfod dibynnu'n llwyr ar wirfoddolwyr.

42 Cafodd gwefan yr Awdurdod ei ail-lansio ym mis Hydref, a chofnodwyd dros 158,000 o ymweliadau yn 2010-11. Mae tudalennau Facebook a Twitter yr Awdurdod yn parhau i ddenu cryn ddiddordeb.

43 Mae'r Awdurdod yn credu mai'r tywydd gwael dros yr haf a rhan o wyliau'r Pasg, sy'n rhan o flwyddyn ariannol 2009-10, arweiniodd at y gostyngiad o 2.4 y cant yn nifer y bobl a ddefnyddiodd ei ganolfannau ymwelwyr. Er hynny, dywedodd 96 y cant o'r rhai a holwyd eu bod yn hapus gyda'r profiad a gawsant.

44 Un o'r cyfleusterau allweddol yr edrychwyd arno fel rhan o drefniant cydweithredu'r Awdurdod yw oriel a chanolfan ymwelwyr Oriel y Parc yn Nhyddewi. Mae'r ganolfan hon yn rhan o bartneriaeth gydag Amgueddfa Cymru, gyda'r Awdurdod yn darparu'r cyfleuster yn rhad ac am ddim. Llofnodwyd cytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr Awdurdod ac Amgueddfa Cymru ym mis Rhagfyr 2007, yn sgil dymuniad yr Amgueddfa i ddangos ei chasgliad o gelf Graham Sutherland yn Sir Benfro ac fel rhan o nod yr Awdurdod i hybu dealltwriaeth.

45 Pwyllgor Oriel y Parc yr Awdurdod oedd yn gyfrifol am arolygu'r Oriel tan iddo gael ei ddileu ym mis Ionawr 2011. Bellach, mae aelodau o Bwyllgor Dealltwriaeth a Chraffu ar Hamdden yr Awdurdod[9] a chyfarfodydd rheolaidd rhwng Amgueddfa Cymru a staff yr Awdurdod yn trin a thrafod materion sy'n ymwneud â'r Oriel. Mae perthynas waith gadarnhaol gan y ddau sefydliad.

46 Wrth archwilio Oriel y Parc, gwelsom ei fod yn gyfleuster o'r radd flaenaf. Mae'n adeilad modern ac yn cynnwys arwyddion da. Mae'n cynnwys desg dderbynfa, man hyrwyddo, man masnachol, caffi ac oriel gelf ynghyd â lle i eistedd a chael picnic y tu allan. Mae'r oriel gelf yn cynnwys amryw o wrthrychau celf, rhai â chysylltiad penodol â byd natur a nodweddion eraill y Parc.

47 Mae'r Oriel Gelf yn denu rhywfaint o ymwelwyr heb ddiddordeb cychwynnol yn y Parc. Fodd bynnag, nid oeddem yn siŵr a oedd defnyddio'r oriel gelf i arddangos celf o safon a denu ymwelwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod hwnnw i helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Parc. Mae'n bosibl bod yr Awdurdod yn talu cost cyfle wrth ddarparu gofod sylweddol yn yr Oriel i Amgueddfa Cymru, a hynny am ddim. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn sicrhau bod y cytundeb lefel gwasanaeth yn cynrychioli gwerth am arian o ran ei allu i gyfrannu at ei flaenoriaethau, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth mewn grym tan fis Rhagfyr 2017, gyda'r trefniadau yn amodol ar adolygiad blynyddol. Er hynny, yn ymarferol, mae unrhyw newidiadau cyn 2014 yn debygol o gael eu cyfyngu gan yr amodau sy'n

9 At ddibenion y Cytundeb Lefel Gwasanaeth hwn, mae bellach yn gweithredu fel Pwyllgor Oriel y Parc.

gysylltiedig â’r £1.6 miliwn o arian Amcan Un a sicrhawyd gan yr Undeb Ewropeaidd er mwyn helpu i gynnal yr Oriel.

48 Yn 2010-11, collodd Amgueddfa Cymru ei grant gan Gyngor y Celfyddydau tuag at artist preswyl. Penderfynodd yr Awdurdod ariannu’r fenter hon ei hun. Mae’r Awdurdod wedi manteisio ar hyn trwy ddefnyddio artistiaid lleol, weithiau am ddim, a thrwy sicrhau bod llawer o’r gwaith gyda phlant ysgol ac eraill yn gysylltiedig ag un neu fwy o flaenoriaethau’r Awdurdod.

## Mae dull yr Awdurdod o werthuso ac adrodd am ei berfformiad a'i drefniadau ar gyfer cyflwyno gwelliannau yn parhau i ddatblygu, er bod yna berygl o beidio gwerthfawrogi gwerth gwneud cymariaethau

49 Ym mis Gorffennaf 2011, cyhoeddodd yr Awdurdod ganlyniadau hunanasesiad o'i berfformiad yn ystod 2010-11. Roedd y ddogfen hon yn cynnwys nifer o nodweddion defnyddio gan gynnwys:

- cyflwyno'r camau gweithredu'n glir o gymharu â phob un o amcanion 2010-11;
- crynodeb o'r cynnydd o gymharu â phob amcan; a
- fformat cryno hwylus i'r darllenwyr.

50 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i ddyletswyddau o ran cyhoeddi gwybodaeth am welliannau; er bod lle i wella'r broses o fesur ei berfformiad, gan gynnwys cymharu ag awdurdodau gwella eraill a pherthnasol yng Nghymru.

51 Wrth gynllunio'i ddull o gyflawni amcanion 2010-11, ni nododd yr Awdurdod unrhyw fesurau llwyddiant ystyrlon mewn nifer o feysydd. O ganlyniad, ar gyfer 2010-11, aeth ati i fesur cynnydd yn bennaf trwy ei weithgareddau a'i gamau gweithredu, yn hytrach nag asesu a yw'r gweithredoedd hynny wedi arwain at y canlyniadau a'r effeithiau dymunol. Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad sy'n cynnwys cymharu â'i berfformiad dros y flwyddyn flaenorol. Er hynny, nid yw wedi meincnodi'i berfformiad â sefydliadau cymharol eraill, fel y ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru. Roedd yr Awdurdod wedi cyhoeddi ei hunanasesiad cyn bod data awdurdodau eraill wedi'i archwilio a'i gyhoeddi, ond byddai rhywfaint o'r wybodaeth honno ar gael o wneud cais.


52 Mae'r Awdurdod yn defnyddio system boblogaidd Ffynnon i gofnodi a monitro data perfformiad ac er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r aelodau ym mhwyllgor craffu'r Awdurdod. Yn ddiweddar, cytunwyd y byddai dau aelod o'r Awdurdod yn derbyn hyfforddiant ac yn defnyddio'r system hon, fel y gallant chwilio am wybodaeth unrhyw bryd. Mae'r hawl i aelodau ddefnyddio system Ffynnon yn rhan o gynllun peilot ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o'i ymestyn i bob aelod â diddordeb. Mae tri Awdurdod y Parciau Cenedlaethol wedi sefydlu adran a rennir o fewn system Ffynnon fel y gall pob awdurdod gymharu ei gynnydd unigol ar ambell ddangosydd perfformiad gyda chynnydd y ddau arall yn rheolaidd. Ar hyn o bryd, nid yw'r tri awdurdod yn diweddaru'r adran hon - enghraifft o ddatblygiad arall sy'n ofynnol er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial system Ffynnon.

53 Fel y nodwyd yn ein *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol*, mae'r Awdurdod wedi sefydlu tri phwyllgor adolygu newydd yn lle'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad, gyda phob un yn gweithio fel pwyllgor craffu sy'n canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar waith yr Awdurdod. Er ein bod yn cefnogi'r rhesymeg dros newid, nid yw cylchoedd gorchwyl y pwyllgorau unigol wedi'u pennu'n ffurfiol eto, ac mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r dull newydd hwn yn gwneud gwahaniaeth. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn rhan o'r Prosiect Craffu a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n ystyried sut y gellir gwella prosesau craffu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru.

54 Roeddem yn falch o weld bod yr adroddiadau chwarterol i bwyllgorau'r Awdurdod yn canolbwyntio ar amcanion gwella'r Awdurdod, yn hytrach nag adrodd ar bob maes gwasanaeth. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau dealltwriaeth well o'r cynnydd tuag at gyflawni blaenoriaethau, yn annog pawb i osgoi gweithio ar eu pennau eu hunain, ac ail-bwysleisio pwysigrwydd y blaenoriaethau hyn i'r aelodau a'r staff.

55 Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu dull o reoli risg gyda'r nod o nodi a lleihau peryglon. Er ei fod yn dal i drafod union fformat y gofrestr risg, bu'n canolbwyntio i ddechrau ar asesu'r effaith yn seiliedig ar gostau ariannol yn bennaf, heb ystyried y goblygiadau o ran cyflawni blaenoriaethau.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol, a chyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau, parciau cenedlaethol a'r awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi'r adroddiad hwn fel rhan o'i ddyletswyddau dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni'i ddyletswyddau dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella dan adran 18 ac sy'n dweud a ydyw, yn sgil ei archwiliad o'r cynllun gwella dan adran 17, yn credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau dan adran 15.

Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Mae cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yn enghreifftiau o awdurdodau gwella.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni'i ddyletswyddau. Mae'r Asesiad Gwella wedi'i lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw'r awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn mynegi barn ar hanes yr awdurdod o sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad.

Dan rai amgylchiadau hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiadau arbennig (dan adran 21) ac mewn perthynas â hyn bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, ac efallai yn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw (dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu'r gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol ystyried y wybodaeth a rennir gan y rheoleiddwyr perthnasol (dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Awdurdod

## Yr Awdurdod

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gwario tua £7 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn gyfystyr â £310 y preswylydd. Yn yr un flwyddyn, gwariodd yr Awdurdod £185,000 ar eitemau cyfalaf hefyd.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 o aelodau, gyda 12 wedi'u henwebu gan Gyngor Sir Penfro, a chwech wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r aelodau hyn yn gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau.

Dibenion yr Awdurdod yn ôl Deddf Amgylchedd 1995 yw:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y Parc; a
- a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal.

Wrth fynd i'r afael â'r dibenion hyn, mae Deddf 1995 hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer yr ardal.

## Tîm Rheoli Corfforaethol

- Tegryn Jones yw'r Prif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig
- Jane Gibson yw'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Chadwraeth
- James Parkin yw'r Cyfarwyddwr Hamdden, Marchnata a Chyfathrebu
- Alan Hare yw'r Pennaeth Rheoli Busnes
- Richard Griffiths yw'r Rheolwr Cyllid
- Janet Evans yw'r Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd
- David Prescott yw Cyfreithiwr yr Awdurdod

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan yr Awdurdod yn www.pcnpa.org.uk neu cysylltwch ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DY.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cyflwynwyd y llythyr archwilio canlynol ar 29 Tachwedd 2011 gan yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

## Cydymffurfiodd Awdurdod Parc Arfordir Penfro â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau, a gallai wneud gwelliannau pellach mewn rhai meysydd yn y dyfodol

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith er mwyn sicrhau trafodion rheolaidd a chyfreithlon, a bod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'r trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon.

Dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, mae'n ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon; a
- chyflwyno tystysgrif i gadarnhau fy mod wedi cwblhau archwilio'r cyfrifon.

Ar 29 Medi 2011, cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o drafodion a sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

O 2010-11, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol (gan gynnwys awdurdodau parciau cenedlaethol) yng Nghymru baratoi'u cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Roedd y safonau hyn yn golygu llawer o waith ychwanegol i staff cyllid yr Awdurdod ond, er gwaethaf hyn, paratowyd y cyfrifon erbyn y dyddiad cau statudol.

Roedd ychydig o faterion yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon a hysbysais yr aelodau amdanynt yn adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol adeg cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon. Mae angen ystyried gwella rhai elfennau o'r gofrestr eiddo yn ystod y flwyddyn i ddod, ac rwyf wedi tynnu sylw'r swyddogion atynt.

Roedd fy adolygiad o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar waith archwilio'r cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Hoffwn hefyd dynnu'ch sylw at y canlynol:

- Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y cyfeiriais ato pan roddwyd y farn archwilio) yn ofyniad newydd ar gyfer 2010-11. Er i'r Datganiad gael ei gwblhau yn unol â'r canllawiau perthnasol, mae lle i wella arno yn y dyfodol. Yn arbennig, wrth adrodd am adolygiad yr Awdurdod o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu fel rhan o'i fusnes arferol a sut y mae'n cofnodi ei adolygiad o effeithiolrwydd ar ddiwedd blwyddyn, gan gynnwys barn ffurfiol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.
- Yn ystod y flwyddyn, aeth yr Awdurdod ati i adolygu ei strwythur pwyllgorau a sefydlu Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys archwiliad allanol, y Datganiad Cyfrifon blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd fy nhîm ymgysylltu'n gweithio gyda swyddogion ac aelodau o'r Pwyllgor hwn er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i ymgymryd â'i ddyletswyddau newydd.

Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwilio'r cyfrifon, ar 29 Medi 2011.

Disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010-11 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## Amcanion gwella'r Awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno cynlluniau i wella'i swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Rhaid cyhoeddi'r cynlluniau hyn bob blwyddyn yn ogystal ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu'u cyflawni er mwyn gwella. Mae'n rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2010-11 yng Nghynllun Gwella 2010/11, a'i amcanion gwella ar gyfer 2011-12 yn Strategaeth Gorfforaethol 2011-2014. Gellir eu gweld ar wefan yr Awdurdod yn www.pembrokeshirecoast.org.uk. Dyma'r amcanion:

| **Amcanion Gwella 2010-11** | |
|---|---|
| **1** | Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y Parc. |
| **2** | Darparu cyfleoedd hamddena cynaliadwy a phleserus. |
| **3** | Hyrwyddo dealltwriaeth well o nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. |
| **4** | Cyfrannu at ymdrechion i oresgyn newid yn yr hinsawdd a lleihau ôl troed ecolegol Cymru. |
| **5** | Darparu gwasanaeth cynllunio sy'n bodloni ymgeiswyr a rhanddeiliaid ac sy'n diogelu'r Parc Cenedlaethol. |
| **6** | Dangos bod yr Awdurdod yn gweithredu i safon lywodraethu uchel. |

| **Amcanion Gwella 2011-12** | |
|---|---|
| **1** | Mae ein gwasanaeth cynllunio wedi gwella'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf a rhaid i ni adeiladu ar hyn fel bod ein gwasanaeth cynllunio ymhlith y chwech uchaf yng Nghymru'n gyson. |
| **2** | Byddwn yn parhau i wneud gwaith o safon wrth gynnal a chadw llwybrau er bod y gyllideb 3% yn llai. |
| **3** | Mae mwy o bobl yn derbyn negeseuon allweddol y Parc Cenedlaethol trwy ymweld â'n canolfannau. |
| **4** | Byddwn yn cynyddu niferoedd y bobl 'anodd eu cyrraedd' sy'n cymryd rhan yn ein digwyddiadau a gweithgareddau o 1,800 i 2,000. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk